DATGANIAD I'R WASG
Dydd Llun 31 Mai 2010

PLANT Y FFLAM – SIOE CHWILBOETH!

Ers nos Wener, mae cynulleidfaoedd Theatr Felin-fach wedi cael eu gwefreiddio gan Sioe Gerdd Ieuenctid Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd Ceredigion 2010, *Plant y Fflam*. Ysbrydoliaeth y sioe yw albwm diwethaf grŵp anhygoel y 70au, Edward H Dafis, a gyhoeddwyd ym 1980. Mae cant o blant a phobl ifanc o Ceredigion, rhwng 12 a 19 mlwydd oed yn cymryd rhan yn y sioe newydd, sy'n cynnwys pob trac o'r albwm eiconaidd.

Roedd Edward H Dafis yn cael ei gydnabod fel band blaengar. Roedd yn un o'r bandiau cyntaf i gyflwyno math newydd o gerddoriaeth yn wahanol i fandiau acwstig y 1960au, ac roedd yn gatalydd i sîn roc a phop yr iaith Gymraeg. Perfformiodd y band, a oedd yn cynnwys Dewi 'Pws' Morris, Charli Britton, Hefin Elis, John Griffiths ac yn ddiweddarach Cleif Harpwood, am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Clwyd ym 1973.

Cyn dechrau gweithio ar y cynhyrchiad *Plant y Fflam,* nid oedd y mwyafrif o'r plant a phobl ifanc sy'n rhan o'r sioe wedi clywed yr albwm. Mae'r cast wedi ymateb yn wych i'r gerddoriaeth, ac yn ystod ymarferion maent wedi cael y cyfle i holi Cleif Harpwood, un o aelodau'r band.

Jeremy Turner, Cyfarwyddwr Celfyddydol Cwmni Theatr Arad Goch, yw Cyfarwyddwr y Sioe. Yn dilyn perfformiad y noson agoriadol nos Wener dywedodd:

"Mae'r theatr yn gyfrwng hynod bwerus i bobl ifanc fynegi eu hunain ac i ddatblygu eu hunaniaeth ddiwylliedig. Mae pob aelod o'r tîm, o'r cast i'r technegwyr ifanc, wedi cwblhau gwaith o safon hynod o uchel er mwyn sicrhau cynhyrchiad unigryw a chofiadwy."

Mae Rhys Taylor, Cyfarwyddwr Cerdd y Sioe wedi casglu deg o ieuenctid ysgolion Ceredigion i chwarae ym mand y cynhyrchiad.

“Roeddwn eisiau defnyddio cerddorion ifanc o’r ardal,” meddai Rhys. “Fel arfer, ni fyddai llawer o’r cerddorion ifanc talentog hyn, yn enwedig y rhai sy’n chwarae offerynnau llinynnol, yn cael y cyfle i chwarae'r math yma o gerddoriaeth roc. Mae’n ddisgyblaeth newydd o gerddoriaeth iddynt, ac mae wedi profi’n her i’r deg ohonynt.”

Mae’r coreograffydd lleol, Lynne Hughes o Aberystwyth wedi dysgu’r cast sut i ddawnsio ac wedi cynnwys ei math arbennig unigryw o ddawnsio stryd a hip-hop yn y Sioe. Dywed Lynne:
“Mae *Plant y Fflam* yn brosiect gwahanol i mi. Mae’r traciau yn hynod o bwerus ac yn gwbl wahanol i’r math o gerddoriaeth rwyf wedi arfer ei ddefnyddio. Dwi’n gobeithio ein bod wedi llwyddo i roi tro modern i’r gerddoriaeth gan roi’r cyfle i’r plant weithio mewn ffordd wahanol i’r arfer.”

Dywed Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod a Chelfyddydau Urdd Gobaith Cymru:

“Rydym yn hynod o ddiolchgar i Gyngor Celfyddydau Cymru am eu cefnogaeth ariannol, i Gyngor Ceredigion am gael defnyddio Theatr Felin-fach ac i benseiri James Jenkins Thomas am noddi *Plant y Fflam*. Rydym yn edrych ymlaen at y ddau berfformiad olaf heno a nos fory, ac yn llongyfarch a diolch i Jeremy a’i dîm ac i’r perfformwyr ifanc ar eu llwyddiant ysgubol!”

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae’r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae’r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae’r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda’r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

PRESS RELEASE
Monday 31 May 2010

PLANT Y FFLAM – A RED HOT SHOW!

Since Friday evening, packed audiences at Felin-fach Theatr have been thrilled by Ceredigion 2010 National Urdd Eisteddfod’s youth musical, *Plant y Fflam*. The show has been inspired by Welsh ‘70s super-group, Edward H Dafis’ last album released in 1980. A hundred youngsters from Ceredigion, aged between 12 and 19 take part in the brand new show, which includes every track from the iconic album.

Edward H Dafis was seen as a groundbreaking band. It was one of the first Welsh-language groups to break away from the mainly acoustic sound of 1960s bands and could be regarded as a catalyst for the Welsh-language rock and pop scene which followed. The band, comprising of Dewi 'Pws' Morris, Charli Britton, Hefin Elis, John Griffiths and later Cleif Harpwood first performed at the National Eisteddfod in Dyffryn Clwyd in 1973.

A large percentage of the young people performing in *Plant y Fflam* had never heard the album before embarking on this production. The cast have responded brilliantly to the music, and have had the opportunity to quiz one of the band members, Cleif Harpwood, during rehearsals.

Jeremy Turner, Artistic Director at Arad Goch Theatre Company, is the show's Director. Following the opening night performance on Friday he said:

"Theatre is such a powerful medium for young people to express themselves and to develop their own cultural identity. Each and every member of the team, from cast to young technicians have worked to an extremely high standard to produce a unique and memorable production."

Rhys Taylor, the show's Musical Director has assembled ten youngsters from schools all over Ceredigion for the production's band.
"I was really keen to use young musicians from the area," says Rhys. "Many of these young, talented musicians, especially those playing string instruments may not get the chance to play this kind of music – rock music. So it has been a new discipline for them and a great challenge for all ten of them."

Local choreographer Lynne Hughes from Aberystwyth has taught the cast how to dance and has brought her own inimitable style of street dancing and hip-hop to the show. Says Lynne: "*Plant y Fflam* is a totally different project for me, The tracks are really powerful as well as totally different to the music I usually work with. I hope we've succeeded in putting a modern twist on things and getting the youngsters to work in a completely different way to what they're used to."

Aled Sion, Urdd Gobaith Cymru Eisteddfod and Arts Director says:
"We are extremely grateful to The Welsh Arts Council for their financial support, to Ceredigion Council for the use of Felin-fach Theatre and to James Jenkins Thomas Architects for sponsoring *Plant y Fflam*. We look forward to the two last performances tonight and tomorrow evening and congratulate and thank Jeremy and his team and the young performers on their resounding success."

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.

- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.